# Prifysgol Abertawe – Polisi Cynaliadwyedd 2024-2025

Mae Prifysgol Abertawe yn rhan o weithgarwch ymchwil arloesol sydd â goblygiadau dwys o ran deall yr amgylchedd lleol, cenedlaethol a byd-eang, a stiwardiaeth arno.  Mae hyn yn cynnwys prosiectau carbon isel a fydd yn chwarae rhan sylweddol yn y broses o sbarduno'r Deyrnas Unedig i fabwysiadu mwy o systemau ynni di-garbon, cyfreithiau amgylcheddol ac ynni, newid yn yr hinsawdd a rhewlifeg, bioamrywiaeth a chadwraeth, a dyframaethu cynaliadwy. Mae'r ymchwil hwn yn gyfraniad mawr y mae'r Brifysgol yn ei wneud at fynd i'r afael â heriau cynaliadwyedd byd-eang.

Gan fod gennym drosiant blynyddol o fwy na £400 miliwn, a chymuned o ryw 20,000 o fyfyrwyr a thros 3,500 o staff, rydym hefyd yn cydnabod yr angen am reoli ein gweithrediadau mewn modd cynaliadwy, a bod pob un ohonom yn gyfrifol am yr amcan hwn. Rydym wedi ymrwymo i fod yn garbon niwtral yn ein hadeiladau erbyn 2035 fel rhan o Strategaeth Ystadau'r Brifysgol (yn amodol ar raglen cynaliadwyedd ariannol barhaus) gan gydnabod yr argyfwng hinsawdd sy'n ein hwynebu ni a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd y Polisi Cynaliadwyedd hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol, bydd ar gael i'r cyhoedd a'r holl bartïon â diddordeb, a bydd yn cael ei gyfleu i holl fyfyrwyr a staff y Brifysgol.

## Mae Prifysgol Abertawe yn ymrwymo i'r canlynol:

1. Lleiafu’r allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithrediadau’r Brifysgol.

2. Lleihau’r defnydd o ddeunyddiau crai sylfaenol (yn cynnwys tanwyddau ffosil, dŵr ac ynni).

3. Annog  staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i fabwysiadu dulliau teithio llesol a chynaliadwy.

4. Arddangos dulliau cynaliadwy o ymdrin â’r amgylchedd adeiledig yn ein prosiectau adeiladu, adnewyddu a chynnal a chadw.

5. Hyrwyddo amrywiaeth fiolegol ar safleoedd y mae’r Brifysgol yn eu rheoli neu’n berchen arnynt.

6. Lleihau lefelau cynhyrchu gwastraff a pheidio ac anfon gwastraff ar gyfer adfer ynni gan ystyried gwastraff fel adnodd, hyrwyddo atal gwastraff, blaenoriaethu ailddefnyddio a chynyddu ailgylchu.

7. Gwarchod yr amgylchedd drwy atal llygredd a thrwy ymrwymiadau penodol eraill sy'n berthnasol i gyd-destun y sefydliad.

8. Gwreiddio ymagweddau cynaliadwy a moesegol yn rhan o gaffael nwyddau a gwasanaethau y Brifysgol.

9. Hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy (ESD) a Nodau Datblygu Cynaliadwy’r Cenhedloedd Unedig (SDGs) trwy gwricwla ffurfiol ac anffurfiol.

10. Cefnogi lefelau uwch o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau cynaliadwy ar draws y Brifysgol a'r gymuned ehangach.

11. Gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr a phartneriaid eraill i wella cynaliadwyedd y Brifysgol.

12. Addasu i newid yn yr hinsawdd gan sicrhau gwydnwch a pharhad gweithrediadau a gwasanaethau.

13. Cyflawni ein rhwymedigaethau cydymffurfio amgylcheddol.

14. Pennu, monitro ac adolygu amcanion perthnasol ac arddangos gwelliant parhaus yn ein perfformiad amgylcheddol.

**Arwyddwyd ar ran yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth:**

**Enw a swydd:** Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor

**Dyddiad: 20 Mai 2024**